CAV HYB
Cardiff And Vale Health Youth Board
Bwrdd Iechyd Ieuenctid Caerdydd A'r Fro

Cardiff and Vale University Health Board Voluntary Services

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Aelod Gwirfoddol o'r Bwrdd Ieuenctid

Gwirfoddoli i Bobl Ifanc (13-25 oed)

TYMRWYMIAD

Isafswm o 1 awr y mis (yn rhithwir a/neu wyneb yn wyneb).

LLEOLIAD

Ysbytai a safleoedd cymunedol BIP Caerdydd a'r Fro. Lleoliadau eraill oddi ar y safle.

GWIRIADAU GOFYNNOL*

DBS uwch (16 oed ac yn hŷn), Gwiriad Iechyd Galwedigaethol, Asesiad Risg Unigol, Dau Eirda.

***Y cyfan yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd.**

Gofynnir i aelodau Bwrdd Ieuenctid Iechyd Caerdydd a'r Fro gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ym Mwrdd Iechyd y Brifysgol (BIP). Ymgynghorir ag Aelodau ar amrywiaeth o bynciau, ond mae'r rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau'n ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc.

Beth arall y gallech fod yn ei wneud (i'r rhai sydd â diddordeb).

- Beth arall y gallech fod yn ei wneud (i'r rhai sydd â diddordeb).
- Cyfweld â staff y BIP.
- Cyflwyno mewn cynadleddau.
- Bod yn rhan o ddatblygu addysg ar gyfer staff y BIP.
- Casglu adborth gan Blant a Phobl Ifanc sy'n defnyddio/wedi defnyddio gwasanaethau'r BIP.
- Hybu negeseuon iechyd cadarnhaol.
- Datblygu a dylunio ffyrdd o roi gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc am wasanaethau'r BIP a Chyngor am Iechyd neu Ôl-ofal.
- Creu fideos/animeiddiadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, i egluro gweithdrefnau (megis sganiau) a gwasanaethau'r BIP (megis 'Rôl y Nyrs Ysgol').

Beth rydyn ni'n ei ofyn gennych chi.

- Yr ymrwymiad amser disgwyliedig yw lleiafswm o awr y mis. Gellir defnyddio'r amser i wneud sylwadau ar ymgynghoriadau neu roi barn trwy e-bost, nid yw'n golygu awr y mis wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'n orfodol mynychu'r hyfforddiant ymsefydlu ac unrhyw sesiynau diweddaru.
- Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant y GIG.
- Rhaid i chi fod yn 13-25 oed i fod yn gymwys ar gyfer y rôl hon.

Patient Experience Listening and Learning

Kind and caring | Respectful | Trust and integrity | Personal responsibility

Profiad y Claf Gwrando a Dysgu

Sut fyddwch chi ar eich ennill?

- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned.
- Datblygiad personol: Gwella eich sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys sgiliau gwrando'n weithredol, sgiliau datrys problemau, empathi, sgiliau sgwrsio, a magu eich hyder.
- Cyfleoedd hyfforddi (yn ogystal â hyfforddiant ymsefydlu), rhai wedi'u hachredu.
- Hyfforddiant cyfwelydd.
- Ymwybyddiaeth ofalgar.
- Cyfweld Ysgogol Sylfaenol.
- Bod yn aelod o'r bwrdd.
- Profiadau mewn lleoliad Gofal Iechyd.
- Cyfarfod ag amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Cyfleoedd mentora.
- Geirdaon ar gyfer ffurflenni UCAS, cyfleoedd gwaith.
- Potensial o oriau tuag at Fagloriaeth Cymru.